

Archwilio Pam

Goleuni



Fersiwn Estynedig

Archwilio Pam

Goleuni

Tania ap Siôn a Leslie J Francis
Darluniwyd gan Phillip Vernon



Bear Lands Publishing

Aled a Siân

Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r mannau lle maen nhw'n byw a'r mannau y maen nhw'n mynd i ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i' er mwyn eu helpu i ddod i adnabod y mannau hyn yn well. Yn y gyfres *Archwilio Pam*, mae Aled a Siân yn chwilfrydig ac eisiau gwybod pam fod rhai o'r pethau o'u cwrpas yn bwysig i'w ffrindiau Cristnogol, Iddewig a Mwslimaidd.

Mae'r gyfres yn cymryd arwyddocâd cymdeithasol crefydd o ddifrif, ac mae'n seiliedig ar ymchwil helaeth i sut mae plant yn dysgu amdany'n nhw eu hunain, am bobl eraill, ac am y byd maen nhw'n byw ynddo.

I ategu'r gyfres hon o lyfrau stori, mae amrywiaeth eang o adnoddau ar gyfer plant ac athrawon, y gellir eu llwytho i lawr am ddim, ac maen nhw ar gael ar hwb.wales.gov.uk/Adnoddau a st-marys-centre.org.uk

Mae'r llyfrau stori a'r gweithgareddau wedi'u hanelu at blant 5 - 7 mlwydd oed, ond mae'r adnoddau sy'n bosib eu llwytho i lawr yn gwneud y gyfres yn berthnasol i blant iau a phlant hŷn hefyd.

Cyhoeddwyd gan Bear Lands Publishing, Canolfan y Santes Fair, Llys Onnen, Abergwyngregyn, Gwynedd, LL33 0LD, Wales.

Hawlfraint © Tania ap Siôn a Leslie J Francis (testun), Phillip Vernon (darluniau).

Mae Tania ap Siôn, Leslie J Francis, a Phillip Vernon wedi mynnu eu hawl o dan Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988, i gael eu nodi fel awduron y gwaith hwn.

Cyfieithwyd gan Nant Roberts.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir i unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn gael ei atgynhyrchu, na'i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng, electronig, electrostatig, tâp magnetig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, nac fel arall, heb ganiatâd llawn Bear Lands Publishing a deiliaid yr Hawlfraint.

Cyhoeddwyd gyntaf 2016.

Noddir gan Lywodraeth Cymru.

Teitlau'r gyfres *Archwilio Pam* yw:


Bara
Croes
Goleuni
Menora
Fêl
Dŵr
Symbolau Ffydd





Mae Aled a Siân wrth eu bodd yn archwilio'r ardal maen nhw'n byw ynddi a'r lleoedd maen nhw'n ymweld â nhw. Maen nhw'n mwynhau chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', er mwyn eu helpu

i ddod i adnabod y lleoedd hyn yn well. Heddiw, fe welon nhw oleuni llachar y lamp oedd wrth y gwely, ac yna fe fuon nhw'n ceisio gweld sawl math arall o oleuni y gallen nhw ddod o hyd iddo, a ble.



Bownsiodd Aled a Siân dros y gwely a rhedeg at ffenestr yr ystafell wely. Arhosodd y ddau i edrych i fyny ar y llenni streipïog gwyrdd a glas a oedd wedi'u cau. Yna, y naill ochr ar ôl y llall, fe

dynnodd y ddau y llenni a'u hagor. Fe sylodd y ddau ar oleuni gwyn y bore, wrth iddo lenwi'r ystafell yn glir a llachar.




Yno, y tu allan i'r ffenestr, fe welon nhw'r lawntiau a siediau'r gerddi, yr erialau a'r toeau, y ceir a'r beiciau modur. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i –

goleuni," gwaeddodd Siân. Pwyntiodd i fyny i'r awyr uwchben. Nawr, a'r cymylau llwyd wedi diflannu bron i gyd, tywynnai'r haul ar y tir islaw.



Sylwodd Aled a Siân bod drws yr atig ar agor. Aled aeth i fyny'n gyntaf, gan ddringo'r grisiau serth yn ofalus. Wedi iddyn nhw gyrraedd pen y grisiau, fe

syllodd y ddau i'r cysgodion a gweld eu mam yn pacio dillad ar gyfer y siop elusen. Roedd hi'n dal siorts gwyrdd a ffrog ddu gyda secwins drosti.



Wedi mynd o'r atig, aeth Aled a Siân ati i chwilio yn yr ystafelloedd gwely. Fe aethon nhw i ystafell wely eu rhieni a cherdded at y bwrdd gwisgo. Fe welon nhw'r ffotograffau yno. Cerddodd y ddau i'r

ystafell sbâr ac aroglï'r blodau yn y fâs. Fe aethon nhw i'w hystafell eu hunain a chyffwrdd y bocsys llawn teganau.



Yno, yn y bocsys, fe ddaethon nhw o hyd i'r jig-sos a'r peli, y doliau a'r tedis, yr ysbïenddrych a'r gemau bwrdd. "Dw i'n gweld â'm llygad bach i – goleuni," gwaeddodd Siân. Pwyntiodd at y dortsh a

oedd wedi ei chuddio o dan un o'r gwelyau. Tortsh fach las oedd hi gyda'r golau bach yn fflachio'n ansicr.



Cododd Aled a Siân y bêl-droed a mynd allan i chwarae. Cerddodd y ddau heibio'r blwch postio, heibio siop y gornel, a heibio neuadd y band. Yna, fe wnaethon nhw gyrraedd y parc. Wrth i Aled a

Siân gicio'r bêl-droed ar draws y gwair, heibio'r siglenni a'r fframiau dringo, fe glywon nhw sŵn uchel taran.



Edrychodd Aled a Siân i fyny a gweld y cymylau du yn crynhoi yn yr awyr uwch eu pennau. Yno, roedd y gwyllanod swnllyd yn gweiddi eu cri o rybudd wrth i fflach lachar dorri ar draws yr awyr. “Dw i’n

gweld â’m llygad bach i – goleuni,” gwaeddodd Aled. Pwyntiodd tuag at follt y fellten. Roedd yn gryf ac yn llachar, yn saethu’n igam-ogam i gyfeiriad y coed.



Rhedodd Aled a Siân o'r parc er mwyn dianc rhag y glaw. Rhedodd y ddau heibio giatiau'r parc, heibio'r gofeb rhyfel, a heibio'r garej. Yna, fe

ddaethon nhw at dŷ eu ffrindiau Nathan a Rachel. Fe wnaethon nhw ganu'r gloch ac aros i'w ffrindiau ddod at y drws.




Yn y tŷ, roedd mam Nathan a Rachel yn brysur yn yr ystafell fwyta, yn paratoi'r bwrdd ar gyfer eu pryd bwyd gyda'r nos. "Dyma ddwy gannwyll," meddai, "yn barod ar gyfer dechrau'r Shabbat, y

dydd o orffwys, yn ein cartref." "Tybed pam mae goleuni mor bwysig ar gyfer y Shabbat?" gofynnodd Aled a Siân wrth iddyn nhw wylïo mam Nathan a Rachel yn brysur wrth ei gwaith.




Y prynhawn Gwener hwnnw, fe helpodd Aled a Siân eu ffrindiau i baratoi ar gyfer eu diwrnod arbennig o'r wythnos. Fe fuon nhw'n dal i feddwl tybed pam mae goleuni mor bwysig ar gyfer y

Shabbat. Wrth iddi nosi, goleuodd mam Nathan a Rachel y canhwyllau, a'u bendithio, er mwyn croesawu'r Shabbat, y dydd o orffwys.



Ar y bwrdd, gwelodd Aled a Siân bopeth wedi'i osod yn union fel y mae ar gyfer pryd bwyd nos Wener y Shabbat. Yno, wedi'u gosod ar y lliain bwrdd gwyn, fe welon nhw'r ddwy dorth wedi eu

plethu a'r gorchudd lliain. Fe welon nhw'r gwpanaid o win a'r blodau ffres. Fe welon nhw'r halen a'r ddwy gannwyll. "Tybed pam mae goleuni mor bwysig ar gyfer y Shabbat?" gofynnodd Siân i Aled.



Gwylodd Aled a Siân dad Nathan a Rachel yn bendithio'i fab a'i ferch. Sylwodd y ddau arno'n bendithio'r bara a'r gwin. Ymunodd y ddau yn y cyfarchiad "Shabbat Shalom." Yn ystod y pryd

bwyd, fe ddywedodd Nathan a Rachel ddwy stori wrth Aled a Siân i'w helpu i ddod o hyd i'r ateb i'w cwestiwn.



Agorodd Nathan a Rachel gopi o'r Torah a dod o hyd i lyfr Genesis, pennod un. Yno, fe wnaethon nhw ddarllen sut roedd Duw wedi creu'r nefoedd a'r ddaear. Ar y diwrnod cyntaf un, wrth wahanu'r

goleuni oddi wrth y tywyllwch, fe wnaeth Duw greu goleuni. Cafodd y goleuni ei alw'n 'ddydd' a chafodd y tywyllwch ei alw'n 'nos'.



Clywodd Aled a Siân sut y gwnaeth Duw lunio'r
byd drwy greu'r awyr, y moroedd a'r tir. Fe glywsom
nhw sut y gwnaeth Duw lenwi'r mannau hyn â'r

planhigion a'r coed, yr haul a'r lleuad, y pysgod,
yr adar a'r anifeiliaid. Yna, ar y chweched diwrnod
fe greodd Duw bobl – dyn a dynes.



Pan oedd y gwaith hwn wedi'i orffen, fe edrychodd Duw ar bopeth roedd wedi'i wneud a gweld bod y cyfan yn dda iawn. Felly, ar y seithfed diwrnod fe orffwysodd Duw ac fe gafodd y dydd ei fendithio

a'i wneud yn sanctaidd. Cafodd y diwrnod hwnnw ei alw'n Shabbat, a'i osod ar wahân i chwe diwrnod arall yr wythnos.



Chwiliodd Nathan a Rachel yn eu copi o'r Torah a dod o hyd i lyfr Exodus. Yno, fe wnaethon nhw ddarllen hanes Duw'n rhoi'r Deg Gorchymyn i Moses ar Fynydd Sinai. Fe welodd y bobl, a oedd

yn aros amdano islaw, ogoniant Duw yn llosgi fel tân ar ben y mynydd. Yna, pan ddaeth Moses i lawr, roedd ei wyneb yn disgleirio hefyd am fod Duw wedi bod gydag ef.



Clywodd Aled a Siân yr hanes am Dduw'n rhoi'r pedwerydd gorchymyn, "Cofia'r dydd Saboth, i'w gadw'n gysegredig. Chwe diwrnod yr wyt i weithio

a gwneud dy holl waith, ond y mae'r seithfed dydd yn Saboth yr Arglwydd dy Dduw; na wna ddim gwaith y dydd hwnnw."



Dyweddodd Nathan a Rachel eu bod yn cymryd seibiant o'u bywydau prysur ar y Shabbat, ac yn cofio. Fe fyddan nhw'n cofio am waith Duw yn creu, ac yn cymryd rhan yn nydd gorffwys Duw.

Fe fyddan nhw'n cofio am berthynas Duw a Moses ac yn cadw'r gorchmynion. Fe fyddan nhw'n diolch i Dduw am yr holl bethau hyn ac am yr amser arbennig gyda'i gilydd fel teulu.



Wedi i'r pryd bwyd ddod i ben, fe fu Aled a Siân yn mwynhau canu caneuon gyda theulu Nathan a Rachel. Fe fuon nhw'n gwrando'n astud ar ragor o storïau Iddewig yn cael eu hailadrodd, ac fe fuon

nhw'n chwerthin ac yn siarad nes y daeth hi'n amser mynd adref. "Yfory, wrth iddi nosi," meddai Nathan a Rachel, "fe fyddwn ni'n goleuo kannwyll arbennig eto i ffarwelio â'r Shabbat!"



Cyn mynd i gysgu, edrychodd Aled a Siân drwy ffenestr eu hystafell wely ar y byd llwyd y tu allan. Yn y tawelwch wrth i'r lleuad a'r sêr oleuo'r nos,

sibrydodd Aled a Siân gyda'i gilydd, "Nawr rydyn ni'n gwybod pam mae goleuni mor bwysig ar gyfer y Shabbat!"

Mae Aled a Siân yn chwarae 'Dw i'n gweld â'm llygad bach i', a heddiw maen nhw'n chwilio am wahanol fathau o 'oleuni'. Maen nhw'n dod o hyd i oleuni mewn pob math o leoedd o gwmpas ble maen nhw'n byw. Pan fydd Aled a Siân yn ymweld â'u ffrindiau, Nathan a Rachel, maen nhw'n dechrau gofyn cwestiwn pwysig – "Tybed pam mae goleuni mor bwysig ar gyfer y Shabbat?" Gyda help Nathan a Rachel, mae Aled a Siân yn dechrau dod o hyd i rai atebion.



Bear Lands Publishing